

## **ARWEINIAD: CYNNWYS A AWGRYMRIR AR GYFER CELF A DYLUNIO (CELF, CREFFT A DYLUNIO)**

*SYLWER: Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond mae disgwyl i ddysgwyr roi ystyriaeth i'r agweddau y cyfeirir atynt isod. Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu. Mae'r cynnwys hwn yn cynnig arweiniad pellach i athrawon.*

Mae modd gwahaniaethu rhwng Celf, Crefft a Dylunio ac opsiynau eraill gan ei fod yn galluogi dysgwyr i arddangos diddordebau a galluoedd personol ar draws cwrs astudio arbennig o eang. Dylent archwilio meysydd ymarferol a chyd-destunol o'u dewis o fyd celf, crefft a dylunio trwy gyfrwng amrediad o gyfryngau a phrosesau dau a/neu dri dimensiwn. Gall Celf, Crefft a Dylunio gynnwys y defnydd o amrywiaeth ddiderfyn bron o ddefnyddiau, technegau a phrosesau, ond dylid rhoi sylw dyledus i sicrhau dyfnder priodol yn ogystal ag ehangder y profiadau dysgu.

**Dylai'r gwaith a gyflwynir ar gyfer Celf, Crefft a Dylunio gynnwys tystiolaeth o'r canlynol er mwyn bodloni gofynion yr amcanion asesu.**

### **AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol**

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth ymchwiliol gyd-destunol o gelf, crefft a dylunio a ffynonellau eraill sy'n berthnasol i'r maes astudio a ddewiswyd.
- Ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth eang o waith sydd wedi'i gynhyrchu gan artistiaid, crefftwyr a dylunwyr a'r gwahaniaethau yn eu dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau.
- Sgïl dadansodol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gymharu a chyferbynnu gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso gwaith personol.

### **AA2 Gwneud creadigol**

- Dethol ac arbrofi gydag amrediad eang priodol a digonol o gyfryngau a phrosesau, gan arfer rheolaeth addas ar y rhain i uchafu potensial creadigol.
- Archwilio adnoddau ysgogol i gychwyn a datblygu syniadau gwreiddiol, gyda sylw dyledus i elfennau ffurfiol perthnasol, yn enwedig cyfansoddiad. Perthnasoedd clir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol, gan gynnwys cam olaf ond un y datblygu er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu a mireinio syniadau wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. Rheolaeth fedrus o ran rhoi sylw i fanylder, er enghraifft, ailadeiladu rhannau o ddarnau crefft tri dimensiwn, er mwyn cynhyrchu canlyniadau gorffenedig o safon.

### **AA3 Cofnodi myfyriol**

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio gweledol a ffynonellau eraill. Rhoi sylw dyledus i ddewis ffynonellau ymholi priodol a dadansoddi'r rhain er mwyn cael manylion llawn gwybodaeth.
- Cofnodi, trwy luniadu a ffyrdd addas eraill, fel nodiadau lliw, tonyddol a gwadeddol, ffotograffau ac anodi mewn llyfrau braslunio ac ar daflenni astudio, syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sydd yn unol â bwriadau personol.
- Myfyrio beirniadol ar gynnydd y gwaith er mwyn adolygu beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ac egluro pwrpasau ac ystyron. Lle bo'n briodol, gellir trosglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd, er enghraifft, addasu ymateb haniaethol mynegiannol wedi'i beintio i drawstoriadau o ffrwythau er mwyn datblygu dyluniadau graffig ar gyfer marchnata iogyrtiau ffrwythau sydd wedi'u cynhyrchu'n lleol.

### **AA4 Cyflwyno personol**

- Cyflwyno canlyniadau terfynol dychmygus personol sydd, ynghyd â thystiolaeth o'r prosesau a ddefnyddiwyd i'w cynhyrchu, yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd.
- Gwneud cysylltiadau, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, a chyflwyno gwaith sy'n ystyrlon ac mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno a dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad. Dylid rhoi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol, er enghraifft, arddangos canlyniad celf, canlyniad crefft a chanlyniad dylunio sydd wedi'u datblygu o thema gyffredin, ynghyd â rhaglen yn seiliedig ar sgrin o ddeunydd gweledol a thestun.

## ARWEINIAD: CYNNWYS A AWGRYMIR AR GYFER CELF A DYLUNIO (CELF, CREFFT A DYLUNIO)

*SYLWER: Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond mae disgwyl i ddysgwyr roi ystyriaeth i'r agweddau y cyfeirir atynt isod. Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu. Mae'r cynnwys hwn yn cynnig arweiniad pellach i athrawon.*

Mae modd gwahaniaethu rhwng Celf, Crefft a Dylunio ac opsiynau eraill gan ei fod yn galluogi dysgwyr i arddangos diddordebau a galluoedd personol ar draws cwrs astudio arbennig o eang. Dylent archwilio meysydd ymarferol a chyd-destunol o'u dewis o fyd celf, crefft a dylunio trwy gyfrwng amrediad o gyfryngau a phrosesau dau a/neu dri dimensiwn. Gall Celf, Crefft a Dylunio gynnwys y defnydd o amrywiaeth ddiderfyn bron o ddefnyddiau, technegau a phrosesau, ond dylid rhoi sylw dyledus i sicrhau dyfnder priodol yn ogystal ag ehangder y profiadau dysgu.

**Dylai'r gwaith a gyflwynir ar gyfer Celf, Crefft a Dylunio gynnwys tystiolaeth o'r canlynol er mwyn bodloni gofynion yr amcanion asesu.**

### AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth ymchwiliol gyd-destunol o gelf, crefft a dylunio hanesyddol a chyfoes yn ogystal â ffynonellau eraill sy'n berthnasol i'r maes astudio a ddewiswyd.
- Ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth eang o waith sydd wedi'i gynhyrchu gan artistiaid, crefftwyr a dylunwyr a'r gwahaniaethau yn eu dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau.
- Sgïl dadansodol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gloriannu, cymharu a chyferbynnu gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso'n ffurfiannol a chrynodol ganlyniadau personol.

### AA2 Gwneud creadigol

- Dethol ac arbrofi'n bwrpasol gydag amrediad eang priodol a digonol o gyfryngau a phrosesau, cyfryngau cymysg a chyfuniadau o gyfryngau, gan arfer rheolaeth addas ar y rhain i uchafu potensial creadigol, a dangos tystiolaeth o astudiaeth briodol o ddwfn ac eang.
- Archwilio adnoddau ysgogol a ffynonellau gweledol a chyffyrddol cyfoethog i gychwyn a datblygu syniadau gwreiddiol, gyda sylw dyledus i elfennau ffurfiol perthnasol, yn enwedig cyfansoddiad. Dylid sefydlu perthnasoedd clir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol, gan roi sylw dyledus i gam olaf ond un y datblygu er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu a mireinio syniadau wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. Rheolaeth fedrus o ran rhoi sylw i fanylder, er enghraifft, ailadeiladu rhannau o ddarnau crefft tri dimensiwn, er mwyn cynhyrchu canlyniadau gorffenedig o safon.

### AA3 Cofnodi myfyriol

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio gweledol a ffynonellau eraill, gan ddangos diddordebau a barnau personol. Rhoi sylw dyledus i ddewis ffynonellau ymholi priodol a dadansoddi'r rhain yn drylwyr er mwyn cael manylion llawn gwybodaeth.
- Cofnodi, drwy luniadu a ffyrdd addas eraill, fel nodiadau lliw, tonyddol a gweadeddol, ffotograffau ac anodi mewn llyfrau braslunio ac ar daflenni astudio, syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sydd yn unol â bwriadau personol.
- Myfyrio beirniadol ar gynnydd y gwaith er mwyn adolygu'n effeithiol beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpasau ac ystyron. Lle bo'n briodol, gellir trosglwyddo dysgu i gyd-destunau newydd, er enghraifft, addasu ymateb haniaethol, mynegiannol wedi'i beintio i drawstoriadau o ffrwythau er mwyn datblygu dyluniadau graffig ar gyfer iogyrtiau ffrwythau newydd sydd wedi'u cynhyrchu'n lleol.

### AA4 Cyflwyno personol

- Cyflwyno canlyniadau terfynol dychmygus gwirioneddol bersonol sydd, ynghyd â thystiolaeth ddetholus o'r prosesau a ddefnyddiwyd i'w cynhyrchu, yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd yn effeithiol.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, a chyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno a dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad. Dylid rhoi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut y gallai ennyn diddordeb cynulleidfa, er enghraifft, arddangos canlyniad celf, canlyniad crefft a chanlyniad dylunio sydd wedi'u datblygu o thema gyffredin, ynghyd â rhaglen yn seiliedig ar sgrin o ddeunydd gweledol a thestun.

## ARWEINIAD: CYNNWYS A AWGRYMRIR AR GYFER CELF A DYLUNIO (CELFYDDYD GAIN)

*SYLWER: Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond mae disgwyl i ddysgwyr roi ystyriaeth i'r agweddau y cyfeirir atynt isod. Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu. Mae'r cynnwys hwn yn cynnig arweiniad pellach i athrawon.*

Gall Celfyddyd Gain fod yn wahanol oherwydd y pwyslais mae'n ei roi ar bwrpasau esthetig a deallusol yn hytrach nag ar ystyriaethau ymarferol, swyddogaethol ac iwtilitaraidd. Mae'r opsiwn hwn yn cwmpasu maes eang o astudiaeth sy'n datblygu ac mae'n cynnwys peintio, lluniadu, cerameg, cerflunwaith, gosodwaith, celf perfformiad a chysyniadol ac agweddau ar wneud printiau, ffotograffiaeth a ffilm. Mae'n defnyddio cyfryngau a phrosesau traddodiadol, newydd a rhai sy'n datblygu ac yn cynnwys defnydd mynegiannol o amrediad arbennig o eang o ddefnyddiau, technegau a sgiliau.

**Dylai'r gwaith a gyflwynir ar gyfer Celf a Dylunio (Celfyddyd Gain) gynnwys tystiolaeth o'r canlynol er mwyn bodloni gofynion yr amcanion asesu.**

### AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth gyd-destunol o gelfyddyd gain a ffynonellau eraill fel pensaernïaeth, dylunio cynhyrchiad a lle celfyddyd gain yn y rhain.
- Ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o brosesau a chanlyniadau celfyddyd gain a'r gwahaniaeth rhwng dulliau mynegiannol a dulliau swyddogaethol.
- Sgïl dadansodol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gymharu a chyferbynnu gwaith artistiaid cain perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso gwaith personol.

### AA2 Gwneud creadigol

- Dethol ac arbrofi gydag amrediad eang o gyfryngau a phrosesau celfyddyd gain, gan arfer rheolaeth ar y rhain i uchafu potensial creadigol.
- Archwilio adnoddau ysgogol i gychwyn a datblygu syniadau gwreiddiol, gyda sylw dyledus i linell, tŷn, lliw, gwedd ac elfennau gweledol eraill, yn enwedig cyfansoddiad. Perthnasoedd clir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol, gan gynnwys cam olaf ond un y datblygu er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu a mireinio syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Rheolaeth ofalus o ran rhoi sylw i fanylder, er enghraifft, darlunio adeiledd anatomegol wrth bortreadu'r ffurf ddynol, er mwyn cynhyrchu canlyniadau gorffenedig o safon.

### AA3 Cofnodi myfyriol

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio gweledol a chyffyrddol. Rhoi sylw dyledus i ddewis ffynonellau ymholi priodol a dadansoddi'r rhain er mwyn cael manylion llawn gwybodaeth.
- Cofnodi, trwy luniadu a ffyrdd addas eraill, fel nodiadau lliw, tonyddol a gwadeddol, ffotograffau ac anodi mewn llyfrau braslunio ac ar daflenni astudio, syniadau, arsylwadau a mewnwediadau sydd yn unol â bwriadau personol.
- Myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd er mwyn adolygu beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ac egluro pwrpasau ac ystyron.

### AA4 Cyflwyno personol

- Cyflwyno ymatebion creadigol sydd yn bersonol ac yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd, fel triptych yn cynnwys printiau arwyneb, ffotograffau arbrofol a phortreadau wedi'u peintio yn darlunio cyfnodau ym mywyd aelod o'r teulu.
- Gwneud cysylltiadau, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, a chyflwyno gwaith sy'n ystyrlon ac mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno a dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad, gan roi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol.

## **ARWEINIAD: CYNNWYS A AWGRYMIR AR GYFER CELF A DYLUNIO (CELFYDDYD GAIN)**

*SYLWER: Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond mae disgwyl i ddysgwyr roi ystyriaeth i'r agweddau y cyfeirir atynt isod. Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu. Mae'r cynnwys hwn yn cynnig arweiniad pellach i athrawon.*

Gall Celfyddyd Gain fod yn wahanol oherwydd y pwyslais mae'n ei roi ar bwrpasau esthetig a deallusol yn hytrach nag ar ystyriaethau ymarferol, swyddogaethol ac iwtilitaraidd. Mae'r opsiwn hwn yn cwmpasu maes eang o astudiaeth sy'n datblygu ac mae'n cynnwys peintio, lluniadu, cerameg, cerflunwaith, gosodwaith, celf perfformiad a chysyniadol ac agweddau ar wneud printiau, ffotograffiaeth a ffilm. Mae'n defnyddio cyfryngau a phrosesau traddodiadol, newydd a rhai sy'n datblygu ac yn cynnwys defnydd mynegiannol o amrediad arbennig o eang o ddefnyddiau, technegau a sgiliau.

**Dylai'r gwaith a gyflwynir ar gyfer Celf a Dylunio (Celfyddyd Gain) gynnwys tystiolaeth o'r canlynol er mwyn bodloni gofynion yr amcanion asesu.**

### **AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol**

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth gyd-destunol o gelfyddyd gain hanesyddol a chyfoes yn ogystal â ffynonellau eraill fel pensaernïaeth, cerddoriaeth, dawn, drama, dylunio cynhyrchiad a chyfryngau wedi'u cyhoeddi, a lle celfyddyd gain yn y rhain.
- Ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth eang o brosesau a chanlyniadau celfyddyd gain a'r gwahaniaethau rhwng cerflunwaith, cerameg, gwneud printiau a ffotograffiaeth celfyddyd gain a chymhwys o'r ffurfiau celf hyn yn iwtilitaraidd. Lle bo'n briodol, dylai dehongliadau personol arddangos y gwahaniaeth rhwng dulliau mynegiannol a dulliau swyddogaethol.
- Sgïl dadansodol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gloriannu, cymharu a chyferbynnu gwaith artistiaid cain perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso'n ffurfiannol a chrynodol ganlyniadau personol.

### **AA2 Gwneud creadigol**

- Dethol ac arbrofi gydag amrediad eang priodol a digonol o gyfryngau a phrosesau celfyddyd gain, cyfryngau cymysg a chyfuniadau o gyfryngau, gan arfer rheolaeth addas ar y rhain i uchafu potensial creadigol.
- Archwilio adnoddau ysgogol a ffynonellau gweledol a chyffyrddol cyfoethog i gychwyn a datblygu syniadau gwreiddiol, gyda sylw dyledus i linell, tŷn, lliw, gwead ac elfennau gweledol eraill, yn enwedig cyfansoddiad. Dylid sefydlu perthnasoedd clir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol, gan roi sylw dyledus i gam olaf ond un y datblygu er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu a mireinio syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Rheolaeth ofalus o ran rhoi sylw i fanylder, er enghraifft, darlunio adeiledd anatomegol wrth bortreadu'r ffurf ddynol, er mwyn cynhyrchu canlyniadau gorffenedig o safon.

### **AA3 Cofnodi myfyriol**

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio gweledol a chyffyrddol, gan ddangos diddordebau a barnau personol. Rhoi sylw dyledus i ddewis ffynonellau ymholi priodol a dadansoddi'r rhain yn drylwyr er mwyn cael manylion llawn gwybodaeth.
- Cofnodi, trwy luniadu a ffyrdd addas eraill, fel nodiadau lliw, tonyddol a gwadeddol, ffotograffau ac anodi mewn llyfrau braslunio ac ar daflenni astudio, syniadau, arsylwadau a mewnwleidiadau sydd yn unol â bwriadau personol.
- Myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd er mwyn adolygu'n effeithiol beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpasau ac ystyron.

### **AA4 Cyflwyno personol**

- Cyflwyno ymatebion creadigol sydd yn eu hanfod yn bersonol ac yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd yn effeithiol, er enghraifft, triptych yn cynnwys printiau arwyneb, ffotograffau arbrolfol a phortreadau wedi'u peintio yn darlunio'r cyfnodau ym mywyd aelod o'r teulu.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, a chyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno a dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad, gan roi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut y gallai ennyn diddordeb cynulleidfa.

## ARWEINIAD: CYNNWYS A AWGRYMIR AR GYFER CELF A DYLUNIO (ASTUDIAETHAU BEIRNIADOL A CHYD-DESTUNOL)

*SYLWER: Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond mae disgwyl i ddysgwyr roi ystyriaeth i'r agweddau y cyfeirir atynt isod. Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu. Mae'r cynnwys hwn yn cynnig arweiniad pellach i athrawon.*

Mae Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol yn opsiwn unigryw gan ei fod yn galluogi dysgwyr i ddatblygu cyfleoedd arloesol i feithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau beirniadol, cyd-destunol a churadurol wrth werthfawrogi arteffactau, testunau a delweddau o fewn amgylcheddau diwylliannol penodol, ochr yn ochr ag ymchwiliadau ymarferol perthnasol. Mae'r opsiwn yn cynnig amrediad eang o brofiadau dysgu deallusol ac ymarferol trwy amrywiaeth o strategaethau bywiog a chreadigol ar gyfer datblygu a chyflwyno ymatebion personol, ymarferol, beirniadol a chyd-destunol. Gallai'r rhain gynnwys amrywiaeth eang o ganlyniadau ymarferol sy'n arddangos dealltwriaeth o, er enghraifft, waith artist, mudiad neu thema, drwy, er enghraifft, dyfeisio cyflwyniad clyweledol, datblygu arddangosfa addysgiadol wedi'i hanodi, dylunio adnoddau dysgu, a thrwy amrywiaeth o destunau darluniadol wedi'u hysgrifennu mewn ffurfiau gwahanol at amrywiol bwrpasau. Gallai'r rhain fod ar ffurf arweinyfrau ar gyfer orielau, pamffledi arddangosfa, tudalennau cylchgrawn, erthyglau papur newydd, sgriptiau rhaglenni dogfen ar y teledu neu drafodaethau neu ddeialog ffeithiol neu ffuglennol rhwng artistiaid, crefftwyr neu ddylunwyr gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu. Mae'n hanfodol pwysleisio bod yr opsiwn hwn yn wahanol i ddulliau traddodiadol o ymdrin â hanes celf, a bod gofyn i'r dysgwyr ddarparu tystiolaeth o gyflawniad ar draws y pedwar amcan asesu.

## Dylai'r gwaith a gyflwynir ar gyfer Celf a Dylunio (Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol) gynnwys tystiolaeth o'r canlynol er mwyn bodloni gofynion yr amcanion asesu.

### AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth gyd-destunol o gelf, crefft a dylunio a ffynonellau eraill, gan ddangos dealltwriaeth o sut mae arteffactau a delweddau yn adlewyrchu amser a lleoliad eu cynhyrchu.
- Ymwybyddiaeth o amrywiaeth eang o waith sydd wedi'i chynhyrchu gan artistiaid, crefftwyr a dylunwyr, y berthynas rhwng eu disgyblaethau a'r gwahaniaethau yn eu dulliau a'u hymagweddau.
- Sgïl dadansodol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gymharu a chyferbynnu gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso canlyniadau personol.

### AA2 Gwneud creadigol

- Dethol ac archwilio'n bwrpasol amrediad eang priodol o gyfryngau, defnyddiau a thechnegau, testunau beirniadol a chyd-destunol, themâu, cyfnodau, mudiadau ac arddulliau a'r ffyrdd mae syniadau a chredoau wedi dylanwadu ar gelf, crefft a dylunio.
- Ymchwilio i adnoddau ysgogol gan gynnwys ffynonellau gweledol a chyffyrddol, cyflwyniadau artistiaid, rhaglenni celf ar y radio a'r teledu, adolygiadau mewn papurau newydd, cyhoeddiadau a defnydd detholus o'r Rhyngryd. Lle bo'n bosibl, dylid gweld enghreifftiau hanesyddol a chyfoes yn uniongyrchol ac artistiaid, crefftwyr a dylunwyr wrth eu gwaith.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu a mireinio syniadau wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. Rheolaeth fedrus wrth ddehongli a chyfleu barnau am ddelweddau, gwrthrychau ac arteffactau er mwyn cynhyrchu canlyniadau o safon.

### AA3 Cofnodi myfyriol

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio priodol, gan ddangos chwilfrydedd a diddordebau a barnau personol. Rhoi sylw dyledus i ddewis ffynonellau ymholi priodol a dadansoddi'r rhain er mwyn cael manylder llawn gwybodaeth.
- Cofnodi, trwy amrywiaeth o ffyrdd addas, fel nodiadau ysgrifenedig, brasluniau, nodiadau lliw, tonyddol a gwadeddol, ffotograffau mewn llyfrau gwaith a llyfrau braslunio ac ar daflenni astudio, syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sydd yn unol â bwriadau personol.
- Myfyrio beirniadol ar gynnydd y gwaith er mwyn adolygu beth sydd wedi cael ei ddysgu, gan ddangos dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpasau. Y gallu i drosglwyddo dysgu i gyd-destun newydd, er enghraifft, addasu disgrifiad ysgrifenedig a darluniadol o fywyd a gwaith artist lleol i lunio sgript rhaglen ddogfen ar gyfer y teledu.

### AA4 Cyflwyno personol

- Cyflwyno ymatebion gwreiddiol sydd yn eu hanfod yn bersonol ac yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd, er enghraifft, cyfres o lythyrau dychmygol rhwng arlunydd tirluniau a ffotograffydd tirwedd lle maent yn cymharu'r gwahaniaethau yn eu dulliau, mewn geiriau a delweddau.
- Gwneud cysylltiadau clir, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, a chyflwyno gwaith sy'n ystyrlon ac mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno a dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad, gan roi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol ar gyfer cynulleidfia, er enghraifft, cynhyrchu pecyn adnoddau oriel ar gyfer dysgwyr CA3.

## ARWEINIAD: CYNNWYS A AWGRYMIR AR GYFER CELF A DYLUNIO (ASTUDIAETHAU BEIRNIADOL A CHYD-DESTUNOL)

*SYLWER: Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond mae disgwyl i ddysgwyr roi ystyriaeth i'r agweddau y cyfeirir atynt isod. Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu. Mae'r cynnwys hwn yn cynnig arweiniad pellach i athrawon.*

Mae Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol yn opsiwn unigryw gan ei fod yn galluogi dysgwyr i ddatblygu cyfleoedd arloesol i feithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau beirniadol, cyd-destunol a churadurol wrth werthfawrogi arteffactau, testunau a delweddau o fewn amgylcheddau diwylliannol penodol, ochr yn ochr ag ymchwiliadau ymarferol perthnasol. Mae'r opsiwn yn cynnig amrediad eang o brofiadau dysgu deallusol ac ymarferol trwy amrywiaeth o strategaethau bywiog a chreadigol ar gyfer datblygu a chyflwyno ymatebion personol, ymarferol, beirniadol a chyd-destunol. Gallai'r rhain gynnwys amrywiaeth eang o ganlyniadau ymarferol sy'n arddangos dealltwriaeth o, er enghraifft, waith artist, mudiad neu thema, drwy, er enghraifft, dyfeisio cyflwyniad clyweledol, datblygu arddangosfa addysgiadol wedi'i anodi, dylunio adnoddau dysgu, a thrwy amrywiaeth o destunau darluniadol wedi'u hysgrifennu mewn ffurfiau gwahanol at amrywiol bwrpasau. Gallai'r rhain fod ar ffurf arweinyddiaeth ar gyfer orielau, pamffledi arddangosfa, tudalennau cylchgrawn, erthyglau papur newydd, sgriptiau rhaglenni dogfen ar y teledu neu drafodaethau neu ddeialog ffeithiol neu ffuglennol rhwng artistiaid, crefftwyr neu ddylunwyr gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu. Mae'n hanfodol pwysleisio bod yr opsiwn hwn yn wahanol i ddulliau traddodiadol o ymdrin â hanes celf, a bod gofyn i'r dysgwyr ddarparu tystiolaeth o gyflawniad ar draws y pedwar amcan asesu.

## Dylai'r gwaith a gyflwynir ar gyfer Celf a Dylunio (Astudiaethau Beirniadol a Chyd-destunol) gynnwys tystiolaeth o'r canlynol er mwyn bodloni gofynion yr amcanion asesu.

### AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth ymchwiliol gyd-destunol o gelf, crefft a dylunio hanesyddol a chyfoes yn ogystal â ffynonellau eraill, gan ddangos dealltwriaeth o sut mae arteffactau a delweddau yn adlewyrchu amser, lleoliad a chyd-destunau eraill eu cynhyrchu.
- Ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth eang o waith sydd wedi'i chynhyrchu gan artistiaid, crefftwyr a dylunwyr, y berthynas rhwng eu disgyblaethau a'r gwahaniaethau yn eu dulliau, ymagweddau, pwrpasau a bwriadau.
- Sgîl ymchwiliol, dadansodol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gloriannu, cymharu a chyferbynnu gwaith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso'n ffurfiannol a chrynodol ganlyniadau personol.

### AA2 Gwneud creadigol

- Dethol yn ddoeth ac archwilio'n bwrpasol amrediad eang priodol a digonol o gyfryngau, defnyddiau, technegau a phrosesau, testunau beirniadol a chyd-destunol, themâu, cyfnodau, mudiadau ac arddulliau a'r ffyrdd mae syniadau, agweddau a chredoau wedi dylanwadu ar gelf, crefft a dylunio.
- Ymchwilio i adnoddau ysgogol gan gynnwys ffynonellau gweledol a chyffyrddol cyfoethog, cyflwyniadau byw ac wedi'u recordio gan artistiaid, rhaglenni celf ar y radio a'r teledu, adolygiadau o arddangosfeydd mewn papurau newydd a chylchgronau, cyhoeddiadau a defnydd detholus o'r Rhyngwlad. Lle bo'n bosibl, dylid ymgymryd ag ymweliadau â ffynonellau cynradd fel orielau, amgueddfeydd, stiwdios a gweithdai artistiaid, crefftwyr a dylunwyr i ymgysylltu â'r canlyniadau creadigol a'u gwneuthurwyr yn uniongyrchol.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu a mireinio syniadau wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. Rheolaeth fedrus o ran rhoi sylw i fanylder wrth ddehongli, gwerthuso a chyfleu barnau am ddelweddau, gwrthrychau ac arteffactau er mwyn cynhyrchu canlyniadau gorffenedig o safon.

### AA3 Cofnodi myfyriol

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio priodol, gan ddangos chwilfrydedd a diddordebau a barnau personol. Rhoi sylw dyledus i ddewis ffynonellau ymholi priodol a dadansoddi'r rhain yn drylwyr er mwyn cael manylder llawn gwybodaeth.
- Cofnodi, trwy amrywiaeth o ffyrdd addas, fel nodiadau ysgrifenedig, brasluniau, nodiadau lliw, tonyddol a gwadeddol, ffotograffau mewn llyfrau gwaith a llyfrau braslunio ac ar daflenni astudio, syniadau, arsylwadau a mewnwediadau sydd yn unol â bwriadau personol.
- Myfyrio beirniadol ar gynnydd y gwaith er mwyn adolygu'n effeithiol beth sydd wedi cael ei ddysgu, gan ddangos dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpasau ac ystyron. Y gallu i drosglwyddo dysgu i gyd-destun newydd, er enghraifft, addasu disgrifiad ysgrifenedig a darluniadol o fywyd a gwaith artist lleol i lunio sgript rhaglen ddogfen ar gyfer y teledu.

### AA4 Cyflwyno personol

- Cyflwyno ymatebion gwreiddiol sydd yn eu hanfod yn bersonol ac yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd yn effeithiol, er enghraifft, cyfres o lythyrau dychmygol rhwng arlunydd tirluniau a ffotograffydd tirwedd lle maent yn cymharu'r gwahaniaethau yn eu dulliau, mewn geiriau a delweddau.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, a chyflwyno gwaith sy'n ystyron, gwybodus ac mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno a dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad, gan roi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut y gallai ennyn diddordeb cynulleidfa neu olygydd, er enghraifft, cynhyrchu pecyn adnoddau oriel ar gyfer dysgwyr CA3.

## ARWEINIAD: CYNNWYS A AWGRYMR AR GYFER CELF A DYLUNIO (DYLUNIO TECSTILAU)

*SYLWER: Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond mae disgwyl i ddysgwyr roi ystyriaeth i'r agweddau y cyfeirir atynt isod. Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu. Mae'r cynnwys hwn yn cynnig arweiniad pellach i athrawon.*

Mae Dylunio Tecstilau yn cwmpasu amrediad eang iawn o ddefnyddiau, technegau a phrosesau, gan gynnwys nifer cynyddol o dulliau rhyngddisgyblaethol. Mae'r rhain yn cynnwys dulliau wedi'u gwehyddu, wedi'u brodio, wedi'u gwau, wedi'u printio, wedi'u peintio, wedi'u llifo, wedi'u trin ac wedi'u haddurno a dulliau saerïol a ddefnyddir i gynhyrchu amrywiaeth fawr o ganlyniadau tecstilau sy'n cynnwys dylunio costiw a ffasiwn, cyfwisgoedd ac addurniadau corff. Mae'r amrediad yn cynyddu wrth i ddefnyddiau a thechnolegau newydd ddatblygu.

**Dylai'r gwaith a gyflwynir ar gyfer Celf a Dylunio (Dylunio Tecstilau) gynnwys tystiolaeth o'r canlynol er mwyn bodloni gofynion yr amcanion asesu.**

### AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth gyd-destunol o ddylunio tecstilau hanesyddol a chyfoes yn ein diwylliant ein hunain ac mewn diwylliannau eraill, yn ogystal â ffynonellau eraill fel celfyddyd gain, ffotograffiaeth a dylunio cynhyrchiad.
- Ymwbyddiaeth o'r amrywiaeth o brosesau a chanlyniadau tecstil creadigol a dealltwriaeth o'r berthynas rhwng ystyriaethau swyddogaethol ac esthetig. Ymateb sensitif i faterion fel traddodiadau diwylliannol ac ailgylchu.
- Sgîl dadansoddol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gymharu a chyferbynnu gwaith dylunwyr tecstilau perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso canlyniadau tecstil personol.

### AA2 Gwneud creadigol

- Dethol ac arbrofi'n bwrpasol gydag amrediad o ddefnyddiau, prosesau a thechnegau tecstil, gan arfer rheolaeth addas ar y rhain i uchafu potensial creadigol. Gellir cynnwys manylion technegol, ond dylent gael eu dethol yn ofalus a bod yn gryno. Ni ddylai ymddiddori mewn prosesau technegol neu brosesau crefft fod yn bwysicach na datblygu syniadau creadigol.
- Archwilio adnoddau ysgogol a ffynonellau gweledol a chyffyrddol cyfoethog i gychwyn a datblygu syniadau gwreiddiol, gyda sylw dyledus i linell, lliw, patrwm, gwead ac elfennau gweledol eraill, yn enwedig ffurf. Sefydlir perthnasoedd clir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol, a rhoi sylw dyledus i gam olaf ond un y datblygu er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Arferir rheolaeth ofalus wrth fireinio manylion, er enghraifft, dylunio a chynhyrchu nodweddion addurniadol, er mwyn cynhyrchu canlyniadau o safon.

### AA3 Cofnodi myfyriol

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth astudio ffynonellau cyfeirio gweledol a chyffyrddol, gan ddangos diddordebau a barnau personol. Rhoi sylw dyledus i ddewis ffynonellau ymholi priodol a dadansoddi'r rhain er mwyn cael manylion llawn gwybodaeth.
- Cofnodi mewn llyfrau braslunio, llyfrau gwaith ac ar daflenni astudio arsylwadau a mewnwelediadau sydd yn unol â bwriadau personol, fel nodiadau lliw, patrwm a gwadeddol. Gellir gwneud hyn trwy luniadu, gwneud marciau a dulliau addas eraill fel ffotograffau a sylwebaeth ddadansoddol.
- Myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd er mwyn adolygu'n effeithiol beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpasau ac ystyron.

### AA4 Cyflwyno personol

- Cyflwyno ymatebion gwreiddiol sydd yn eu hanfod yn bersonol ac yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd, fel paneli *appliqué* wedi'u brodio â pheiriant ar gyfer tŷ newydd ffrind agos.
- Gwneud cysylltiadau, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, a chyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno, er enghraifft, trwy sesiwn tynnu lluniau mewn stiwdio o gostiw theatrig, neu frasluniau o'r cynnyrch tecstil mewn sefyllfa addas. Dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad, gan roi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol ar gyfer cynulleidfa. Nid yw bob amser yn angenrheidiol i gynhyrchu eitemau neu ddillad gorffenedig ond dylent fod yn ddigon cyflawn i ddangos y gellid dod â hwy i ddatrysiaid terfynol.

## ARWEINIAD: CYNNWYS A AWGRYMIR AR GYFER CELF A DYLUNIO (DYLUNIO TECSTILAU)

*SYLWER: Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond mae disgwyl i ddysgwyr roi ystyriaeth i'r agweddau y cyfeirir atynt isod. Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu. Mae'r cynnwys hwn yn cynnig arweiniad pellach i athrawon.*

Mae Dylunio Tecstilau yn cwmpasu amrediad eang iawn o ddefnyddiau, technegau a phrosesau, gan gynnwys nifer cynyddol o ddulliau rhyngdisgyblaethol. Mae'r rhain yn cynnwys dulliau wedi'u gwehyddu, wedi'u brodio, wedi'u gwau, wedi'u printio, wedi'u peintio, wedi'u llifo, wedi'u trin ac wedi'u haddurno a dulliau saerïol a ddefnyddir i gynhyrchu amrywiaeth fawr o ganlyniadau tecstilau sy'n cynnwys dylunio costiw a ffasiwn, cyfwisgoedd ac addurniadau corff. Mae'r amrediad yn cynyddu wrth i ddefnyddiau a thechnolegau newydd ddatblygu.

**Dylai'r gwaith a gyflwynir ar gyfer Celf a Dylunio (Dylunio Tecstilau) gynnwys tystiolaeth o'r canlynol er mwyn bodloni gofynion yr amcanion asesu.**

### AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth gyd-destunol o ddylunio tecstilau hanesyddol a chyfoes yn ein diwylliant ein hunain ac mewn diwylliannau eraill, yn ogystal â ffynonellau eraill fel celfyddyd gain, pensaerïaeth, ffotograffiaeth, cyfryngau wedi'u cyhoeddi a dylunio cynhyrchiad.
- Ymwbyddiaeth o'r amrywiaeth eang o brosesau a chanlyniadau tecstil creadigol a'r berthynas rhwng ystyriaethau swyddogaethol ac esthetig, gan ddangos dealltwriaeth o sut mae'r rhain yn cael eu cymhwyso a'u haddasu i fodloni anghenion penodol. Ymateb sensitif i faterion fel traddodiadau diwylliannol, anabledd, ailgylchu, ac uwchgylchu.
- Sgîl dadansoddol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gloriannu, cymharu a chyferbynnu gwaith dylunwyr tecstilau perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso'n ffurfiannol a chrynodol ganlyniadau tecstil personol.

### AA2 Gwneud creadigol

- Dethol ac arbrofi'n bwrpasol gydag amrediad eang priodol a digonol o ddefnyddiau a phrosesau tecstil, cyfryngau cymysg a chyfuniadau o dechnegau, gan arfer rheolaeth addas ar y rhain i uchafu potensial creadigol. Gellir cynnwys manylion technegol, ond dylent gael eu dethol yn ofalus a bod yn gryno. Ni ddylai ymddiddori mewn prosesau technegol neu brosesau crefft fod yn bwysicach na datblygu syniadau creadigol.
- Archwilio adnoddau ysgogol a ffynonellau gweledol a chyffyrddol cyfoethog i gychwyn a datblygu syniadau gwreiddiol, gyda sylw dyledus i linell, lliw, patrwm, gwead ac elfennau gweledol eraill, yn enwedig ffurf. Dylid sefydlu perthnasoedd clir rhwng dulliau gweithio a chanlyniadau. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol, a rhoi sylw dyledus i gam olaf ond un y datblygu er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Arferir rheolaeth ofalus wrth fireinio manylion, er enghraifft, dylunio a chynhyrchu nodweddion addurniadol, er mwyn cynhyrchu canlyniadau gorffenedig o safon.

### AA3 Cofnodi myfyriol

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio gweledol a chyffyrddol, gan ddangos diddordebau a barnau personol. Rhoi sylw dyledus i ddewis ffynonellau ymholi priodol a dadansoddi'r rhain yn drylwyr er mwyn cael manylion llawn gwybodaeth.
- Cofnodi mewn llyfrau braslunio, llyfrau gwaith ac ar daflenni astudio arsylwadau a mewnwelediadau sydd yn unol â bwriadau personol, fel nodiadau lliw, patrwm a gweadeddol. Gellir gwneud hyn trwy luniadu, gwneud marciau a dulliau addas eraill fel ffotograffau a sylwebaeth ddadansoddol.
- Myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd er mwyn adolygu'n effeithiol beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpasau ac ystyron.

### AA4 Cyflwyno personol

- Cyflwyno ymatebion gwreiddiol sydd yn eu hanfod yn bersonol ac yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd yn effeithiol, fel paneli *appliqué* wedi'u brodio â pheiriant ar gyfer tŷ newydd ffrind agos.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, a chyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno, er enghraifft, trwy sesiwn tynnu lluniau mewn stiwdio o gostiwm theatrig, neu frasluniau o'r cynnyrch tecstil mewn sefyllfa addas. Dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad, gan roi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut y gallai ennyn diddordeb cynulleidfa neu gleientiaid posibl. Nid yw bob amser yn angenrheidiol i gynhyrchu eitemau neu ddillad gorffenedig ond dylent fod yn ddigon cyflawn i ddangos y gellid dod â hwy i ddatrysiaid terfynol.



## **ARWEINIAD: CYNNWYS A AWGRYMIR AR GYFER CELF A DYLUNIO (CYFATHREBU GRAFFIG)**

*SYLWER: Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond mae disgwyl i ddysgwyr roi ystyriaeth i'r agweddau y cyfeirir atynt isod. Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu. Mae'r cynnwys hwn yn cynnig arweiniad pellach i athrawon.*

Gellir diffinio Cyfathrebu Graffig fel y broses lle mae syniadau'n cael eu mynegi trwy'r defnydd o symbolau, lluniadau, ffotograffau a theipograffeg i gyfleu cysyniadau a/neu emosiynau. Mae'r opsiwn hwn yn cwmpasu maes astudiaeth eang sy'n datblygu, gan ymgorffori amrywiaeth o ddisgyblaethau perthnasol a defnyddio sgiliau traddodiadol, fel caligraffi a llythrennu wedi'i greu â llaw, ochr yn ochr â thechnolegau digidol arloesol. Mae'r ffiniau rhwng prosesau graffigol perthynol yn mynd yn fwyfwy aneglur ond mae agweddau fel hysbysebu, dylunio pecynnau, gemau cyfrifiadur, dylunio gwe ac amlgyfrwng, darlunio a theipograffeg yn rhoi amcan o beth y gellid ymdrin ag ef yn yr opsiwn. Gall Cyfathrebu Graffig hefyd gael ei gysylltu'n agos ag animeiddio, pensaerniaeth, ffotograffiaeth a dylunio ar gyfer print. Gall canlyniadau fod yn ddau ddimensiwn neu'n dri dimensiwn, a gallant fod ar ffurf posteri, taflenni, crysau T, cloriau CD/DVD, cloriau llyfrau, tudalennau cylchgrawn, calendrau, stampiau, pecynnu, deunydd cyhoeddusrwydd, lifrai cerbyd, byrddau poster, hysbysebu, logos, brandio, hunaniaeth gorfforaethol, a dylunio arddangosfeydd a phwyntiau talu tri dimensiwn.

**Dylai'r gwaith a gyflwynir ar gyfer Celf a Dylunio (Cyfathrebu Graffig) gynnwys tystiolaeth o'r canlynol er mwyn bodloni gofynion yr amcanion asesu.**

### **AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol**

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth gyd-destunol o ddylunio graffig ddoe a heddiw yn ogystal â ffynonellau eraill fel celfyddyd gain, dylunio cynnyrch a chyfryngau wedi'u cyhoeddi.
- Ymwybyddiaeth o'r materion sy'n dylanwadu ar bwrpasau, ystyron a chyd-destunau dylunio graffig, fel ystyriaethau moesegol a chadwraethol, prosesau reprograffig a chynhyrchu cylchgronau.
- Sgil dadansodol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gymharu a chyferbynnu gwaith dylunwyr graffig perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso prosesau a chanlyniadau dylunio personol.

### **AA2 Gwneud creadigol**

- Dethol ac arbrofi'n bwrpasol gyda chyfryngau a phrosesau dylunio graffig priodol, a defnydd dan reolaeth o deipograffeg a delweddaeth o ffynonellau cynradd ac eilaidd, gan gynnwys trin pwrpasol gan ddefnyddio meddalwedd ddigidol. Gellir cynnwys manylion technegol, ond dylent gael eu dethol yn ofalus a bod yn gryno. Ni ddylai ymddiddori mewn prosesau technegol fod yn bwysicach na datblygu syniadau creadigol.
- Archwilio adnoddau a ffynonellau stiwdio ac amgylcheddol i ddatblygu syniadau gwreiddiol, gan roi sylw dyledus i gyfansoddiad a gosodiad, cyfrannedd, llinell, tôn, lliw, gwead, graddfa ac elfennau gweledol eraill. Dylid archwilio potensial cyfathrebu graffig drwy arbrofi gyda thechnolegau sydd wedi'u sefydlu'n barod a thechnolegau sy'n datblygu. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol, a rhoi sylw arbennig i'r cam olaf ond un er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Arferir rheolaeth ofalus wrth fireinio manylion, fel dewis ffontiau, y berthynas rhwng teipograffeg a delweddu, a dewis proses reprograffig addas, er mwyn cynhyrchu canlyniadau o safon.

### **AA3 Cofnodi myfyriol**

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio gweledol a ffynonellau eraill. Rhoi sylw dyledus i ddewis y delweddu mwyaf addas, a dadansoddi ac anodi'r rhain, yn hytrach, er enghraifft, na chynnwys llawer o brintiau bawd heb unrhyw sylwadau gwerthusol.
- Cofnodi, trwy luniadu, ffotograffau a ffyrdd eraill, fel brasluniau gosod, byrddau stori a nodiadau ysgrifenedig, syniadau, arsylwadau a mewnwediadau sydd yn berthnasol i fwriadau personol.
- Myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd er mwyn adolygu beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpas ac ystyr.

### **AA4 Cyflwyno personol**

- Cyflwyno ymatebion creadigol sydd yn eu hanfod yn bersonol, yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd yn effeithiol ac yn cyflawni'r gofynion dylunio.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, a chyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno, fel hysbysebu ar gludiant cyhoeddus neu bosteri mewn llochesi bysiau, a dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad, gan roi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol. Os yw maint print neu gost printio fformat ffafriedig yn gyfyngiad, yna gellir ei luniadu, ei ddisgrifio a/neu ei gyflwyno fel model wrth raddfa.

## **ARWEINIAD: CYNNWYS A AWGRYMIR AR GYFER CELF A DYLUNIO (CYFATHREBU GRAFFIG)**

*SYLWER: Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond mae disgwyl i ddysgwyr roi ystyriaeth i'r agweddau y cyfeirir atynt isod. Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu. Mae'r cynnwys hwn yn cynnig arweiniad pellach i athrawon.*

Gellir diffinio Cyfathrebu Graffig fel y broses lle mae syniadau'n cael eu mynegi trwy'r defnydd o symbolau, lluniadau, ffotograffau a theipograffeg i gyfleu cysyniadau a/neu emosiynau. Mae'r opsiwn hwn yn cwmpasu maes astudiaeth eang sy'n datblygu, gan ymgorffori amrywiaeth o ddisgyblaethau perthnasol a defnyddio sgiliau traddodiadol, fel caligraffi a llythrennu wedi'i greu â llaw, ochr yn ochr â thechnolegau digidol arloesol. Mae'r ffiniau rhwng prosesau graffigol perthynol yn mynd yn fwyfwy aneglur ond mae agweddau fel hysbysebu, dylunio pecynnau, gemau cyfrifiadur, dylunio gwe ac amlgyfrwng, darlunio a theipograffeg yn rhoi amcan o beth y gellid ymdrin ag ef yn yr opsiwn. Gall Cyfathrebu Graffig hefyd gael ei gysylltu'n agos ag animeiddio, pensaerniaeth, ffotograffiaeth a dylunio ar gyfer print. Gall canlyniadau fod yn ddau ddimensiwn neu'n dri dimensiwn, a gallant fod ar ffurf posteri, taflenni, crysau T, cloriau CD/DVD, cloriau llyfrau, tudalennau cylchgrawn, calendrau, stampiau, pecynnu, deunydd cyhoeddusrwydd, lifrai cerbyd, byrddau poster, hysbysebu, logos, brandio, hunaniaeth gorfforaethol, a dylunio arddangosfeydd a phwyntiau talu tri dimensiwn.

**Dylai'r gwaith a gyflwynir ar gyfer Celf a Dylunio (Cyfathrebu Graffig) gynnwys tystiolaeth o'r canlynol er mwyn bodloni gofynion yr amcanion asesu.**

### **AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol**

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth gyd-destunol o ddylunio graffig ddoe a heddiw yn ogystal â ffynonellau eraill fel teledu a sinema, celfyddyd gain, dylunio cynnyrch a chyfryngau wedi'u cyhoeddi.
- Ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o faterion sy'n dylanwadu ar bwrsasau, ystyron a chyd-destunau dylunio graffig, fel ystyriaethau moesegol a chadwraethol, strategaethau marchnata, ymgyrchoedd hyrwyddo, prosesau reprograffig a chynhyrchu cylchgronau a chyfnodolion.
- Sgïl dadansodol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gloriannu, cymharu a chyferbynnu gwaith dylunwyr graffig perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso'n ffurfiannol a chrynodol brosesau a chanlyniadau dylunio personol.

### **AA2 Gwneud creadigol**

- Dethol ac arbrofi gyda chyfryngau a phrosesau dylunio graffig priodol, a defnydd dan reolaeth o deipograffeg a delweddaeth o ffynonellau cynradd ac eilaidd, gan gynnwys trin pwrpasol gan ddefnyddio meddalwedd ddigidol. Gellir cynnwys manylion technegol, ond dylent gael eu dethol yn ofalus a bod yn gryno. Ni ddylai ymddiddori mewn prosesau technegol fod yn bwysicach na datblygu syniadau creadigol.
- Archwilio adnoddau ysgogol a ffynonellau stiwdio ac amgylcheddol i gychwyn a datblygu syniadau gwreiddiol, gan roi sylw dyledus i gyfansoddiad a gosodiad, cyfrannedd, llinell, tŵn, lliw, gwead, graddfa ac elfennau gweledol eraill. Dylid archwilio potensial llawn cyfathrebu graffig drwy arbrofi gyda thechnolegau sydd wedi'u sefydlu'n barod a thechnolegau sy'n datblygu a, lle bo'n briodol, dylid cyfuno dulliau dylunio graffig gyda phrosesau eraill i greu ffyrdd newydd o weithio. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol, a rhoi sylw dyledus i gam olaf ond un y datblygu er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Arferir rheolaeth ofalus wrth fireinio manylion, fel dewis ffontiau, perthynas y deipograffeg â'r delweddu, a phroses reprograffig addas, er mwyn cynhyrchu canlyniadau o safon.

### **AA3 Cofnodi myfyriol**

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio gweledol a ffynonellau eraill. Rhoi sylw dyledus i ddewis y delweddu mwyaf addas, a dadansoddi ac anodi'r rhain, yn hytrach na chynnwys llawer o brintiau bawd heb unrhyw sylwadau gwerthusol.
- Cofnodi, trwy luniadu, ffotograffau a ffyrdd eraill, fel brasluniau gosod, byrddau stori a nodiadau ysgrifenedig, syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sydd yn berthnasol i fwriadau personol.
- Myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd er mwyn adolygu beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpasau ac ystyron.

### **AA4 Cyflwyno personol**

- Cyflwyno ymatebion creadigol sydd yn eu hanfod yn bersonol, yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd yn effeithiol ac yn cyflawni'r gofynion dylunio.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, a chyflwyno gwaith sy'n ystyrlon, gwybodus ac mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno, fel hysbysebu ar gludiant cyhoeddus neu bosteri mewn llochesi bysiau, a dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad, gan roi sylw dyledus i bwrsas y gwaith a sut y gallai ennyn diddordeb cynulleidfa neu gleientiaid posibl. Os yw maint print neu gost printio fformat ffafriedig yn gyfyngiad, yna gellir ei luniadu, ei ddisgrifio a/neu ei gyflwyno fel model wrth raddfa.

## **ARWEINIAD: CYNNWYS A AWGRYMR AR GYFER CELF A DYLUNIO (DYLUNIO TRI DIMENSIWN)**

*SYLWER: Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond mae disgwyl i ddysgwyr roi ystyriaeth i'r agweddau y cyfeirir atynt isod. Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu. Mae'r cynnwys hwn yn cynnig arweiniad pellach i athrawon.*

Mae Dylunio Tri Dimensiwn yn wahanol yn yr opsiwn hwn oherwydd y pwyslais sydd yn cael ei roi ar ystyriaethau swyddogaethol ac iwtilitaraidd o'i gymharu â'r canlyniadau tri dimensiwn sy'n cael eu cynhyrchu mewn disgyblaethau eraill, fel cerflunwaith mewn Celfyddyd Gain, lle mae'n debyg y byddai'r bwriadau'n seiliedig ar briodweddau esthetig ffurf fynegiannol. Mae Dylunio Tri Dimensiwn yn cwmpasu amrediad o weithgareddau arbennig o eang, o emwaith ac addurniadau corff i ddylunio pensaernïol ac amgylcheddol. Mae agweddau eraill yn cynnwys cerameg swyddogaethol, dylunio cynnyrch, dylunio mewnol ac arddangosfeydd, dylunio theatr a dylunio cynhyrchiad gan gynnwys ffilm a theledu. Gellir cynnwys agweddau ar grefft hefyd, fel dylunio ac adeiladu pypedau, gwneud teganau, ac eitemau unigol o ddodrefn sy'n ymwneud ag ymarferoldeb a sgiliau llaw yn ogystal â phriodweddau esthetig.

**Dylai'r gwaith a gyflwynir ar gyfer Celf a Dylunio (Dylunio Tri Dimensiwn) gynnwys tystiolaeth o'r canlynol er mwyn bodloni gofynion yr amcanion asesu.**

### **AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol**

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth gyd-destunol o ddylunio tri dimensiwn ddoe a heddiw yn ein diwylliant ein hunain ac mewn diwylliannau eraill, yn ogystal â ffynonellau fel celfyddyd gain, ffilm a theledu, a thecstilau.
- Ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o ffactorau sy'n dylanwadu ar bwrsasau, ystyron a chyd-destunau dylunio tri dimensiwn fel ffactorau ergonomig, ystyriaethau economaidd, dulliau cynhyrchu a'r meini prawf ymarferol ar gyfer lle penodol. Gwybodaeth berthnasol o drefniadau gweithio lle mae canlyniadau tri dimensiwn penodol yn cael eu cynhyrchu, fel cynhyrchu set ar gyfer drama. Dealltwriaeth bod y rhan fwyaf o ddylunwyr yn y bôn yn ymatebol ac yn barod i gydweithio.
- Sgïl dadansodol a dealltwriaeth feiriadol a chyd-destunol wrth gymharu a chyferbynnu gwaith dylunwyr tri dimensiwn perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso'n ffurfiannol a chrynodol brosesau a chanlyniadau dylunio personol. Ymatebion personol i ddelweddau ysbrydoledig yn hytrach na chynhyrchu byrddau naws wedi'u torri a'u gludo.

### **AA2 Gwneud creadigol**

- Dethol ac arbrofi gyda phrosesau a defnyddiau dylunio tri dimensiwn priodol, fel pren, clai, plastig, metel, cerdyn a phapur, gan ddefnyddio offer a chyfarpar addas yn ofalus a diogel. Gellir cynnwys manylion technegol, ond dylent gael eu dethol yn ofalus a bod yn gryno. Ni ddylai ymddiddori mewn prosesau technegol fod yn bwysicach na datblygu syniadau creadigol.
- Archwilio adnoddau ysgogol a ffynonellau gweithdy ac amgylcheddol i ddatblygu syniadau gwreiddiol, gan roi sylw dyledus i'r defnydd sydd i gael ei wneud o'r canlyniad arfaethedig, ei arwynebedd, adeiladwaith, gwedd, lliw, ffurf, graddfa a chryfder ac elfennau tri dimensiwn eraill. Dylid archwilio potensial agweddau penodol ar ddylunio tri dimensiwn trwy arbrofi gyda thechnolegau sydd wedi'u sefydlu'n barod a thechnolegau sy'n datblygu. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol, a rhoi sylw arbennig i'r cam olaf ond un er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu a mireinio syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Rheolaeth ofalus o ran rhoi sylw i fanylder, fel cysylltiadau cydrannau wedi'u ffurfio'n dda, rhannau gweithio sydd yn gweithio, gorffeniad arwyneb ac ymddangosiad esthetig, er mwyn cynhyrchu canlyniadau o safon.

### **AA3 Cofnodi myfyriol**

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth astudio ffynonellau cyfeirio tri dimensiwn, gweledol a chyffyrddol a ffynonellau eraill. Sylw dyledus wedi'i roi i ddadansoddi'r posibilïadau dylunio mwyaf priodol a'r datrysiadau mwyaf priodol i broblemau.
- Cofnodi, trwy frasluniau, lluniadau persbectif, lluniadau technegol â llaw a CAD, ffotograffau, nodiadau ysgrifenedig a ffyrdd eraill, syniadau, arsylwadau a mewnwediadau sydd yn berthnasol i fwrïadau personol.
- Myfyrïo beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd er mwyn adolygu beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach, egluro pwrpas a, lle bo'n briodol, trosglwyddo dysgu i gyd-destun newydd, er enghraifft, o'r llwyfan i'r sgrin.

### **AA4 Cyflwyno personol**

- Cyflwyno ymatebion creadigol sydd yn eu hanfod yn ddatrysiadau personol i ofynion dylunio ac sydd yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd yn effeithiol gyda thystiolaeth o chwilfrydedd ac ymrwymiad personol.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, gan gyflwyno gwaith mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno, fel taflenni dylunio a rhaglen glyweledol, a dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad. Dylid rhoi sylw dyledus i bwrsas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol. Os yw cost y ffurf fwyaf addas yn gyfyngiad, yna gellir ei lluniadu, ei disgrifio a/neu ei chyflwyno gan ddefnyddio defnyddiau rhatach. Gall canlyniadau fod ar ffurf darnau terfynol, prototeipiau, a modelau maint llawn neu wrth raddfa. Gallant fod yn ddarnau unigryw neu'n addas ar gyfer cynhyrchu swp bach neu fasgynhyrchu.

## **ARWEINIAD: CYNNWYS A AWGRYMRIR AR GYFER CELF A DYLUNIO (DYLUNIO TRI DIMENSIWN)**

*SYLWER: Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond mae disgwyl i ddysgwyr roi ystyriaeth i'r agweddau y cyfeirir atynt isod. Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu. Mae'r cynnwys hwn yn cynnig arweiniad pellach i athrawon.*

Mae Dylunio Tri Dimensiwn yn unigryw yn yr opsiwn hwn oherwydd y pwyslais sydd yn cael ei roi ar ystyriaethau swyddogaethol ac iwtilitaraidd o'i gymharu â'r canlyniadau tri dimensiwn sy'n cael eu cynhyrchu mewn disgyblaethau eraill, fel cerflunwaith mewn Celfyddyd Gain, lle mae'n debyg y byddai'r bwriadau'n seiliedig ar briodweddau esthetig ffurf fynegiannol. Mae Dylunio Tri Dimensiwn yn cwmpasu amrediad o weithgareddau arbennig o eang, o emwaith ac addurniadau corff i ddylunio pensaernïol ac amgylcheddol. Mae agweddau eraill yn cynnwys cerameg swyddogaethol, dylunio cynnyrch, dylunio mewnol ac arddangosfeydd, dylunio theatr a dylunio cynhyrchiad gan gynnwys ffilm a theledu. Gellir cynnwys agweddau ar grefft hefyd, fel dylunio ac adeiladu pypedau, ac eitemau unigol o ddodrefn sy'n ymwneud ag ymarferoldeb a sgiliau llaw yn ogystal â phriodweddau esthetig.

**Dylai'r gwaith a gyflwynir ar gyfer Celf a Dylunio (Dylunio Tri Dimensiwn) gynnwys tystiolaeth o'r canlynol er mwyn bodloni gofynion yr amcanion asesu.**

### **AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol**

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth gyd-destunol o ddylunio tri dimensiwn ddoe a heddiw yn ein diwylliant ein hunain ac mewn diwyllianau eraill, yn ogystal â ffynonellau fel gemau a chyhoeddiadau ffug-wyddonol, ffilm a theledu, celfyddyd gain a thecstilau.
- Ymwbyddiaeth o'r amrywiaeth o ffactorau sy'n dylanwadu ar bwrpasau, ystyron a chyd-destunau dylunio tri dimensiwn fel ffactorau ergonomig, ystyriaethau moesegol, cadwraethol ac economaidd, dulliau cynhyrchu a'r meini prawf ymarferol ar gyfer lle penodol. Gwybodaeth berthnasol o drefniadau gweithio lle mae canlyniadau tri dimensiwn penodol yn cael eu cynhyrchu, fel cynhyrchu set ar gyfer drama. Dealltwriaeth bod y rhan fwyaf o ddylunwyr yn y bôn yn ymatebol ac yn barod i gydweithio.
- Sgîl dadansoddi a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gloriannu, cymharu a chyferbynnu gwaith dylunwyr tri dimensiwn perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso'n ffurfiannol a chrynodol brosesau dylunio a chanlyniadau personol. Ymatebion personol i ddelweddau ysbrydoledig yn hytrach na chynhyrchu byrddau naws wedi'u torri a'u gludo.

### **AA2 Gwneud creadigol**

- Dethol ac arbrofi gyda chyfryngau a phrosesau dylunio tri dimensiwn priodol, fel pren, clai, plastig, metel, cerdyn a phapur, gyda defnydd diogel a gofalus o offer a chyfarpar addas a, lle bo'n briodol, defnydd arbenigol o ddylunio a rheolaeth trwy gymorth cyfrifiadur. Gellir cynnwys manylion technegol, ond dylent gael eu dethol yn ofalus a bod yn gryno. Ni ddylai ymddiddori mewn prosesau technegol fod yn bwysicach na datblygu syniadau creadigol.
- Archwilio adnoddau ysgogol a ffynonellau gweithdy ac amgylcheddol i gychwyn a datblygu syniadau gwreiddiol, gan roi sylw dyledus i'r defnydd sydd i gael ei wneud o'r canlyniad arfaethedig, ei arwynebedd, adeiladwaith, gwedd, lliw, ffurf, mäs, cyfaint, graddfa, cyfrannedd, gwydnwch a chryfder ac elfennau tri dimensiwn eraill. Dylid archwilio potensial llawn agweddau penodol ar ddylunio tri dimensiwn trwy arbrofi gyda thechnolegau sydd wedi'u sefydlu'n barod a thechnolegau sy'n datblygu a, lle bo'n briodol, dylid cyfuno dulliau dylunio tri dimensiwn gyda phrosesau eraill i greu ffyrdd newydd o weithio. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol, a rhoi sylw arbennig i'r cam olaf ond un, er mwyn sicrhau nad yw'r canlyniadau terfynol yn ymddangos yn ddisymwth.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu a mireinio syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Rheolaeth ofalus o ran rhoi sylw i fanylder, er enghraifft, cysylltiadau cydrannau wedi'u ffurfio'n dda, rhannau gweithio sydd yn gweithio, gorffeniad arwyneb ac ymddangosiad esthetig, er mwyn cynhyrchu canlyniadau o safon.

### **AA3 Cofnodi myfyriol**

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio tri dimensiwn, gweledol a chyffyrddol a ffynonellau eraill. Sylw dyledus wedi'i roi i ddadansoddi'n drylwyr y posibilïadau dylunio mwyaf priodol a'r datrysiadau mwyaf priodol i broblemau.
- Cofnodi, trwy frasluniau, lluniadau persbectif, lluniadau technegol â llaw a CAD, cynlluniau gweithio, ffotograffau, nodiadau ysgrifenedig a ffyrdd eraill, syniadau, arsylwadau a mewnwelediadau sydd yn berthnasol i fwriadau personol.
- Myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd er mwyn adolygu beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach, egluro pwrpas a, lle bo'n briodol, trosglwyddo dysgu i gyd-destun newydd, er enghraifft, o'r llwyfan i'r sgrin.

### **AA4 Cyflwyno personol**

- Cyflwyno ymatebion creadigol sydd yn eu hanfod yn ddatrysiadau personol i ofynion dylunio ac sydd yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd yn effeithiol gyda thystiolaeth o chwilfrydedd ac ymrwymiad personol.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, gan gyflwyno gwaith mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno, fel taflenni dylunio a rhaglen glyweledol, a dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad. Dylid rhoi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut y gallai ennyn diddordeb cynulleidfa neu glieientiaid posibl, fel cyfarwyddwr neu stiwdio ddylunio. Os yw cost y ffurf fwyaf addas yn gyfyngiad, yna gellir ei lluniadu, ei disgrifio a/neu ei chyflwyno gan ddefnyddio defnyddiau rhatach. Gall canlyniadau fod ar ffurf darnau terfynol, prototeipiau, a modelau maint llawn neu wrth raddfa. Gallant fod yn ddarnau unigryw neu'n addas ar gyfer cynhyrchu swp bach neu fasgynhyrchu.

## ARWEINIAD: CYNNWYS A AWGRYMR AR GYFER CELF A DYLUNIO (FFOTOGRAFFIAETH)

*SYLWER: Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond mae disgwyl i ddysgwyr roi ystyriaeth i'r agweddau y cyfeirir atynt isod. Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu. Mae'r cynnwys hwn yn cynnig arweiniad pellach i athrawon.*

Mae'r opsiwn hwn yn cwmpasu maes astudiaeth eang sydd yn newid o hyd, gan edrych ar ddelweddaueth yn seiliedig ar olau dros gyfnod o ddwy ganrif bron. Gallai dysgwyr edrych ar ddelweddau cynnar yn seiliedig ar olau a thechnoleg elfennol, fel camera twll pin, yn ogystal â'r rhai mwyaf cyfoes, a allai gynnwys y defnydd o gamerâu digidol, camcorders fideo, llungopiŵyr, sganwyr a ffonau symudol. Gallant hefyd weithio'n unig gyda thechnoleg yn seiliedig ar ffilm neu dechnoleg ddigidol, neu weithio gyda'r ddwy. Gall canlyniadau fod yn seiliedig ar sgrin neu ar brint, a chynnwys delweddau llonydd neu symudol, a gallant fod yn arwahanol i'r maes pwnc, neu wedi'u cyfuno â ffurfiau eraill ar gelf.

**Dylai'r gwaith a gyflwynir ar gyfer Celf a Dylunio (Ffotograffiaeth) gynnwys tystiolaeth o'r canlynol er mwyn bodloni gofynion yr amcanion asesu.**

### AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth gyd-destunol o ffynonellau ffotograffig ddoe a heddiw, yn ogystal â ffynonellau eraill fel ffilm, celfyddyd gain, dylunio graffig a chyfryngau wedi'u cyhoeddi, a lle ffotograffiaeth yn y rhain.
- Ymwybyddiaeth o'r materion sy'n dylanwadu ar bwrpasau, ystyron a chyd-destunau ffotograffiaeth ac o'r amrywiaeth o *genres* ffotograffig a ffilm a, lle bo'n briodol, cysylltu gwaith personol â *genre* penodol.
- Sgîl dadansodol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gymharu a chyferbynnu gwaith ffotograffwyr perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso'n ffurfiannol a chrynodol ganlyniadau ffotograffig personol.

### AA2 Gwneud creadigol

- Dethol ac arbrofi gyda chyfryngau a phrosesau ffotograffig priodol, cyfryngau eraill a chyfuniadau o gyfryngau, gyda defnydd dan reolaeth o oleuo, cyflymder caead, agorfa, lensiau, hidlyddion a meddalwedd ddigidol. Gellir cynnwys manylion technegol, ond dylent gael eu dethol yn ofalus a bod yn gryno. Ni ddylai ymddiddori mewn prosesau technegol fod yn bwysicach na datblygu syniadau creadigol.
- Archwilio adnoddau ysgogol a ffynonellau stiwdio ac amgylcheddol i gychwyn a datblygu syniadau gwreiddiol, gyda sylw dyledus i safbwynt, cyfansoddiad, llinell, tôn, lliw, gwead, graddfa ac elfennau gweledol eraill. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol. Dylid archwilio potensial llawn ffotograffiaeth trwy arbrofi gyda chyfryngau traddodiadol a digidol.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Rheolaeth ofalus o ran rhoi sylw i fanylder, er enghraifft, agweddau fel golygu, trin delweddau a chydaniad y print, er mwyn cynhyrchu canlyniadau o safon.

### AA3 Cofnodi myfyriol

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth astudio ffynonellau cyfeirio gweledol a chyffyrddol. Rhoi sylw dyledus i ddewis y delweddau mwyaf arwyddocaol yn unig, a dadansoddi ac anodi'r rhain, yn hytrach na chynnwys llawer o brintiau bawd/printiau cyswllt heb unrhyw sylwadau gwerthusol.
- Cofnodi, trwy ffotograffiaeth a ffyrdd eraill, fel brasluniau, byrddau stori a nodiadau ysgrifenedig, syniadau, arsylwadau a mewnwediadau sydd yn berthnasol i fwriadau personol.
- Myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd er mwyn adolygu beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpas ac ystyr.

### AA4 Cyflwyno personol

- Cyflwyno ymatebion creadigol sydd yn eu hanfod yn bersonol ac sydd yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd yn effeithiol, fel poster ffotograffig i gefnogi barn gadarn neu ddelweddau o adeiladweithiau pensaernïol wedi'u taflunio ar adeilad tri dimensiwn.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, gan gyflwyno gwaith mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno, fel dilyniannau wedi'u hanimeiddio a'r defnydd o gyfryngau cymysg, a dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad, gan roi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut i wneud iddo edrych yn ddiddorol. Os yw maint print neu gost printio fformat ffafriedig yn gyfyngiad, yna gellir ei luniadu, ei ddisgrifio a/neu ei gyflwyno fel model wrth raddfa.

## ARWEINIAD: CYNNWYS A AWGRYMIR AR GYFER CELF A DYLUNIO (FFOTOGRAFFIAETH)

*SYLWER: Nid oes angen glynu wrth y cynnwys hwn ond mae disgwyl i ddysgwyr roi ystyriaeth i'r agweddau y cyfeirir atynt isod. Caiff pob cyflwyniad ei asesu yn ôl ei deilyngdod yn unol â'r cynllun marcio generig sy'n seiliedig ar y pedwar amcan asesu. Mae'r cynnwys hwn yn cynnig arweiniad pellach i athrawon.*

Mae'r opsiwn hwn yn cwmpasu maes astudiaeth eang sydd yn newid o hyd, gan edrych ar ddelweddau yn seiliedig ar olau dros gyfnod o ddwy ganrif bron. Gallai dysgwyr edrych ar ddelweddau cynnar yn seiliedig ar olau a thechnoleg elfennol, fel camera twll pin, yn ogystal â'r rhai mwyaf cyfoes, a allai gynnwys y defnydd o gamerâu digidol, camcorders fideo, llungopiwyr, sganwyr a ffonau symudol. Gallant hefyd weithio'n unig gyda thechnoleg yn seiliedig ar ffilm neu dechnoleg ddigidol, neu weithio gyda'r ddwy. Gall canlyniadau fod yn seiliedig ar sgrin neu ar brint, a chynnwys delweddau llonydd neu symudol, a gallant fod yn arwahanol i'r maes pwnc, neu wedi'u cyfuno â ffurfiau eraill ar gelf.

**Dylai'r gwaith a gyflwynir ar gyfer Celf a Dylunio (Ffotograffiaeth) gynnwys tystiolaeth o'r canlynol er mwyn bodloni gofynion yr amcanion asesu.**

### AA1 Dealltwriaeth gyd-destunol

- Datblygu syniadau sy'n seiliedig ar astudiaeth ymchwiliol gyd-destunol o ffynonellau ffotograffig ddoe a heddiw, yn ogystal â ffynonellau eraill fel ffilm, celfyddyd gain, celf osod, dylunio graffig, dylunio cynhyrchiad a chyfryngau wedi'u cyhoeddi, a lle ffotograffiaeth yn y rhain.
- Ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o genres ffotograffig a ffilm a, lle bo'n briodol, cysylltu gwaith personol â genre penodol.
- Sgïl dadansodol a dealltwriaeth feirniadol a chyd-destunol wrth gloriannu, cymharu a chyferbynnu gwaith ffotograffwyr perthnasol a ffynonellau cyd-destunol eraill ac wrth werthuso'n ffurfiannol a chrynodol ganlyniadau ffotograffig personol.

### AA2 Gwneud creadigol

- Dethol ac arbrofi gyda chyfryngau a phrosesau ffotograffig priodol, cyfryngau eraill a chyfuniadau o gyfryngau, gyda defnydd dan reolaeth o oleuo, cyflymder caead, agorfa, lensiau, hidlyddion a meddalwedd ddigidol. Gellir cynnwys manylion technegol, ond dylent gael eu dethol yn ofalus a bod yn gryno. Ni ddylai ymddiddori mewn prosesau technegol fod yn bwysicach na datblygu syniadau creadigol.
- Archwilio adnoddau ysgogol a ffynonellau stiwdio ac amgylcheddol i gychwyn a datblygu syniadau gwreiddiol, gyda sylw dyledus i safbwynt, cyfansoddiad, llinell, tŵn, lliw, gwriad, graddfa ac elfennau gwledol eraill. Dylid dogfennu pob cam arwyddocaol yn y broses creadigol. Dylid archwilio potensial llawn ffotograffiaeth trwy arbrofi gyda chyfryngau traddodiadol a digidol a, lle bo'n briodol, cyfuno ffotograffiaeth a thechnegau eraill i ddechrau ffyrdd newydd o weithio.
- Dylid dangos gwahaniaethu wrth adolygu syniadau wrth i'r gwaith ddatblygu. Rheolaeth ofalus o ran rhoi sylw i fanylder, er enghraifft, agweddau fel golygu, trin delweddau a chydraniad y print, er mwyn cynhyrchu canlyniadau o safon.

### AA3 Cofnodi myfyriol

- Casglu, dewis, trefnu a chyfathrebu gwybodaeth berthnasol wrth ymgymryd ag ymchwil i ffynonellau cyfeirio gwledol a chyffyrddol. Rhoi sylw dyledus i ddewis y delweddau mwyaf arwyddocaol yn unig, a dadansoddi ac anodi'r rhain, yn hytrach na chynnwys llawer o brintiau bawd/printiau cyswllt heb unrhyw sylwadau gwerthusol.
- Cofnodi, trwy ffotograffiaeth a ffyrdd eraill, fel brasluniau, byrddau stori a nodiadau ysgrifenedig, syniadau, arsylwadau a mewnwediadau sydd yn berthnasol i fwiadau personol.
- Myfyrio beirniadol ar y gwaith a'r cynnydd er mwyn adolygu beth sydd wedi cael ei ddysgu, meithrin dealltwriaeth ddyfnach ac egluro pwrpas ac ystyr.

### AA4 Cyflwyno personol

- Cyflwyno ymatebion creadigol sydd yn eu hanfod yn bersonol ac sydd yn gwireddu'r bwriadau a nodwyd yn effeithiol, fel poster ffotograffig i gefnogi barn gadarn neu ddelweddau o adeiladweithiau pensaernïol wedi'u taflunio ar adeilad tri dimensiwn.
- Gwneud cysylltiadau pendant, lle bo'n briodol, rhwng gwahanol elfennau'r cyflwyniad, gan gynnwys ymatebion cyd-destunol, ymarferol ac ysgrifenedig, gan gyflwyno gwaith mewn trefn sydd yn hawdd ei dilyn.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i ffurfiau gwahanol o gyflwyno, fel dilyniannau wedi'u hanimeiddio a'r defnydd o gyfryngau cymysg, a dewis yr un fwyaf priodol o'r rhain ar gyfer y cyflwyniad, gan roi sylw dyledus i bwrpas y gwaith a sut y gallai ennyn diddordeb cynulleidfya neu gleientiaid posibl. Os yw maint print neu gost printio fformat ffafriedig yn gyfyngiad, yna gellir ei luniadu, ei ddisgrifio a/neu ei gyflwyno fel model wrth raddfa.